# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Mawrth 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

## 268(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2025-26

(45 munud)

### 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Diwygio Deintyddiaeth y Gwasanaeth Iechyd

(45 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol: Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

(45 munud)

## 6 Dadl: Ail Gyllideb Atodol 2024-2025

(30 munud)

**NDM8831** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2025.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

(ii) yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

(iii) cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

(iv) cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig;

(v) cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c); a

(vi) manylion am unrhyw newidiadau i’r wybodaeth a ddarparwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 20.7 - 20.7B ar gyfer y gyllideb ddrafft, fel y nodwyd yn y protocol y cytunwyd arno o dan Reol Sefydlog 20.1A.

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Estyn 2023-24

(60 munud)

**NDM8856** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2023-24 gan Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Chwefror 2025.

2. Yn nodi bod gan sectorau addysg a hyfforddiant Cymru gryfderau sylweddol ond bod yna feysydd sydd yn parhau i fod angen gwelliant.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2024-25 wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â phresenoldeb is, ymddygiad gwael disgyblion a heriau o ran recriwtio staff, sy'n cael effaith negyddol ar addysg yng Nghymru.

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai canlyniadau PISA diweddaraf Cymru ar gyfer mathemateg, darllen ac ysgrifennu yw'r rhai isaf yn y Deyrnas Unedig.

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod yr Adroddiad Blynyddol yn nodi:

a) ar y gyfradd wella bresennol, byddai'n cymryd dros 10 mlynedd i bresenoldeb uwchradd wella i'r lefelau cyn y pandemig;

b) bod recriwtio athrawon i bynciau sydd â phrinder neu'n medru darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i beri pryder arbennig; ac

c) mewn gormod o achosion, nid yw ansawdd addysgu ac asesu'n ddigon da.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 19 Mawrth 2025

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 13/03/2025 i'w hateb ar 18/03/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

1

OQ62487 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yn y sector amddiffyn yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2

OQ62472 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynlluniau i wella'r ddarpariaeth iechyd a llesiant ar gyfer trigolion Dyffryn Nantlle?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

3

OQ62486 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu ei hadolygiad ei hun o'r diwydiant dŵr i asesu rhinweddau dod ag ef i berchnogaeth gyhoeddus?

**Hefin David** *Caerffili*

4

OQ62482 **(e)**

Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant mewn swydd a chyflogaeth â chymorth?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

5

OQ62485 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl sy'n byw mewn cymunedau ger safleoedd tir halogedig yn Nwyrain De Cymru?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

6

OQ62465 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella cysylltedd ffyrdd yn Sir Ddinbych?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

7

OQ62457 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith Brexit ar Bontypridd?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ62484 **(w)**

A fydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg: Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2024?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

9 OQ62483 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau goruchwylio cwmnïau sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

10 OQ62454 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau y mae cynigion ynni gwynt yn effeithio arnynt ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

11 OQ62488 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wasanaethau gofal llygaid i blant?